

# Cartrefi: ar gyfer pob dyfodol

Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

Yng Nghymru, mae gormod ohonom yn byw mewn cartrefi sy’n anfforddiadwy, anaddas neu anniogel.

Ac mae gormod ohonom yn dal i fod heb le i'w alw'n gartref.

Mae’r gost ddynol yn ddwys, gan effeithio yn ddybryd ar iechyd, cyfoeth a chyfleoedd bywyd ar draws y genedl.

## Nid oes raid i bethau fod fel hyn.

Credwn fod tymor nesaf y Senedd yn cynnig trobwynt ar gyfer newid Bydd y dewisiadau a wneir yn y blynyddoedd nesaf yn penderfynu ein dyfodol i gyd: yn unigol, fel teuloedd, fel cymunedau ac fel cenedl.

## Galwad i weithredu yw hon: mae arnom angen cynllun deng mlynedd dewr y gellir ei gyflawni i ddod ag argyfwng tai Cymru i ben.

Trwy adeiladu mwy o gartrefi fforddiadwy gallwn newid bywydau. Trwy fuddsoddi yn ein tai presennol, rydym yn cadw tenantiaid yn gynnes a diogel. Trwy roi blaenoriaeth i gymorth, rydym yn cadw pobl yn eu cartrefi ac yn helpu i ddod â digartrefedd i ben yng Nghymru.



*Aelwyd*

**Byddai cynllun deng mlynedd i godi 60,000 o gartrefi fforddiadwy ychwaegol yng Nghymru yn newid bywydau er gwell.**

- **Gallai miloedd o blant a'u teuluoedd gal eu symud allan o lety dros dro ac i gartref parhaol, sefydlog.**

- **Byddai pobl yn dod adref o'r ysbyty yn gyflymach.** Roedd bron i 45% o'r cleifion a arhosodd yn yr ysbyty am fwy o amser nag y dylent o ganlyniad i oedi yn gysylltiedig â thai, cefnogaeth a chartrefi gofal.[1]

- **Cenhedlaeth newydd o adeiladwyr a masnachwyr -** yn creu dros 2000 o brentisiaethau ac 1,245 o leoliadau gwaith. I bob 20,000 o gartrefi cymdeithas tai, crewyd 6,290 o swyddi uniongyrchol newydd a 7,910 o swyddi anuniongyrchol trwy gydol y cadwyn gyfienwi bob flwyddyn yn ystod y cyfnod adeiladu.[2]

1 Stats Cymru, Awst 2025. Roedd gofal yn gysylltiedig â'r cartref, gofal camu i lawr, addasiadau i'r cartref, problemau yn gysylltiedig â thai, lleoliadau cartrefi yn cyfrif am bron i 45% o'r nifer gyffredinol o oediadau o ran rhyddhau o'r ysbyty

2 Savills, ar gyfer Cartrefi Cymunedol Cymru, 2025

Nid yw’n ddigon gwneud yr hyn yr ydym wastad wedi ei wneud. Er gwaethaf ymdrechion gorau'r holl bartneriaid rydym yn wynebu argyfwng tai.



*Adra*

## Heb newid:

- Ni fyddwn yn gallu torri’r cylch o lefelau ystyfnig o uchel o ddigartrefedd: mae dros 2,500 o deuluoedd â phlant yn byw mewn llety dros dro ar draws Cymru.[3]
- Bydd gwasanaethau sy’n hanfodol i atal digartrefedd a chadw pobl yn eu cartrefi yn wynebu penderfyniadau cynyddol amhosibl o ran pwy y gallant eu cefnogi: yn hydref 2024, dim ond 14% o ddarparwyr cymorth tai oedd yn dweud bod eu cyllid yn ddigonol i dalu holl gostau rhedeg gwasanaeth o safon uchel, gyda digon o staff.[4]
- Bydd cleifion yn parhau i aros yn yr ysbyty am fwy o amser nag y dylent oherwydd anghenion tai neu gefnogaeth nad ydynt yn cael eu bodloni, sy’n golygu ein bod ni i gyd yn aros yn fwy am wasanaethau iechyd: yn fras mae un o bob pedwar o bobl yng Nghymru yn aros am driniaeth gan y GIG.[5]

Canlyniad hynny yw pwysau ar bobl, teuluoedd, cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus - a chynnydd mewn annhegwch ar draws y wlad.

## Cred Cartrefi Cymunedol Cymru a’r cymdeithasau tai sy’n aelodau bod newid gwirioneddol yn bosibl.

- Yn nhymor presennol y Senedd, mae cymdeithasau tai wedi cyflenwi 75% o’r holl gartrefi cymdeithasol ychwanegol.
- Yn 2024-25, cefnogodd cymdeithasau tai amcangyfrif o 37,040 o swyddi cyfatebol i amser llawn (uniongyrchol ac anuniongyrchol), ac arhosodd 85% o’u gwariant yng Nghymru, sy’n cyfateb i £1.49 biliwn i economi Cymru.[7]

## Ond rydym yn gwybod, gyda’r amodau cywir, y gallwn wneud mwy.

Gallwn herio’r argyfwng tai yn fwy effeithiol a chyflym trwy ganolbwyntio ar yr hyn sydd o fwyaf o bwys i bobl a chymunedau; gan wneud dewisiadau am ble yr ydym yn rhoi ein hymdrechion ar y cyd i gyflawni’r budd mwyaf; a rhoi blaenoriaeth i’r camau hynny sy’n cyflawni newid ymarferol mor gyflym ag sy’n bosibl.

[3] Stats Cymru, Hydref 2025

[4] Cartrefi Cymunedol Cymru a Cymorth Cymru, 2024

[5] Ymchwil Senedd Cymru, Medi 2025

[6] Savills, i Cartrefi Cymunedol Cymru, 2025

**Mae'n bryd i ni gael cynllun dewr, y gellir ei gyflawni, sy'n canolbwyntio ar fwy o gartrefi; gwell cartrefi a lleoedd iachach a thecach.**

**Mwy o gartrefi:** cartrefi da y gall pobl eu fforddio ym mhob cymuned

Dylai'r Llywodraeth Cymru nesaf sefydlu map trywydd ar gyfer darparu 60,000 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol dros 10 mlynedd, fel bod 20% o'r holl gartrefi yng Nghymru yn gartrefi fforddiadwy. Rhaid i'r map trywydd nodi'r camau a fyddai'n cynyddu'r gallu i gyflawni o flwyddyn i flwyddyn fel ein bod yn gallu bodloni'r anghenion tai cyfredol a rhai'r dyfodol ym mhob cymuned.

**Cartrefi Gwell:** cartrefi sy'n llunio gwell dyfodol

Dylai'r Llywodraeth Cymru nesaf adolygu'r safonau tai cyfredol, gan ganolbwyntio ar roi blaenoriaeth i'r hyn sy'n bwysig i denantiaid: cartrefi fforddiadwy, cynnes wedi eu cynnal a'u cadw'n dda.

**Lleoedd iachach a thecach:** sy'n rhoi pawb mewn sefyllfa i lwyddo

Gall y Llywodraeth Cymru nesaf wneud Cymru yn iachach a thecach, trwy roi cartrefi da yn ganolog i gynlluniau i drawsnewid iechyd a chyfoeth pobl a lleoedd.

## Pam ei fod o bwys

Pan fydd gennym le diogel i'w alw yn gartref y gallwn ei fforddio, ac sy'n gynnes a chyfforddus, mae'n rhoi'r sylfeini cadarn y mae arnom eu hangen i ffynnu mewn llawer o agweddau arall yn ein bywydau: perthnasoedd, ysgol, gwaith, ein cymuned.

I rai ohonom, mae hyn yn golygu cartref i deulu sy'n tyfu. I eraill, mae'n golygu lle i ddiogelu ein hiechyd a byw mor annibynnol ag sy'n bosibl. Mae cartrefi da i bawb yn golygu'r cartref iawn, gyda'r gefnogaeth iawn, ac yn y lle iawn.

> **Mae fel breuddwyd yn dod yn wir i gael yr allweddi i fy nhŷ cyntaf. Dydw i methu aros i'w wneud mewn i fy nghartref fy hun.**

*Preswylydd Hedyn*

## Yr her

Mae 11,029 o bobl mewn llety dros dro ar hyn o bryd, gan gynnwys miloedd o blant;[7] ac mae rhenti preifat wedi codi gan bron 8% mewn blwyddyn. Ar yr un pryd, mae gormod o aelwydydd yn byw mewn cartrefi gorlawn, gyda rhai grwpiau o leiafrifoedd ethnig yn llawer mwy tebygol o brofi gorlenwi.[8]

Mae'r angen am fwy o gartrefi fforddiadwy, o safon uchel yn un brys ac amlwg ar draws Cymru, ond eto mae'r math o gartref sy'n ofynnol yn aml yn lleol iawn gan ddibynnu ar nodweddion a chyfansoddiad cymunedau. Er enghraifft mae dros 30% o bobl yng Nghymru yn byw mewn ardaloedd gwledig, ond mae ffactorau eraill fel cyfansoddiad diwylliannol, iaith, dwyster y boblogaeth ac economïau lleol hefyd yn cael effaith arwyddocaol.

Mae angen brys hefyd am fwy o dai â chymorth o safon, yn neilltuol i bobl ifanc sy'n gadael gofal, y rhai ag anableddau dysgu, anghenion iechyd meddwl, ac unigolion sy'n ddigartref neu yn ymadfer o gamddefnyddio sylweddau.

7 Statws Cymru, Awst2025

8 Cyfrifiad, 2021



*Clwyd Alyn*

Gwelir effeithiau hyn ymhell tu hwnt i dai: mwy o bobl ag iechyd gwael, yn gorfforol a meddyliol, a'r anghenion gofal yn cynyddu; mwy o bobl yn cael trafferth cael gwaith neu addysg ac aros ynddo; dyfodol mwy o blant yn dioddef trwy amharu ar eu haddysg.

Mae cymdeithasau tai yng Nghymru yn adeiladu 75% o gartrefi fforddiadwy ychwanegol ar y gyfradd uchaf ers 2008. Fodd bynnag gyda'r amodau cywir, gwyddom y gallwn wneud mwy.

Bydd cyflymu'r gyfradd yr ydym yn gallu darparu cartrefi i'r bobl sydd eu hangen ar frys yn golygu cynyddu ein gallu ar y cyd i adeiladu a chaffael cartrefi, ac yn ei gwneud yn gyflymach a haws i wneud hynny. Yn y tymor hir, cynyddu gallu i ddarparu mwy o gartrefi yw'r unig lwybr cynaliadwy i wynebu'r argyfwng tai unwaith ac am byth.

## Y datrysiadau

**Dylai'r Llywodraeth Cymru nesaf sefydlu map trywydd ar gyfer darparu 60,000 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol dros 10 mlynedd, fel bod 20% o'r holl gartrefi yng Nghymru yn gartrefi fforddiadwy. Rhaid i'r map trywydd nodi'r camau a fyddai'n cynyddu'r gallu i gyflawni o flwyddyn i flwyddyn fel ein bod yn gallu bodloni'r anghenion tai cyfredol a rhai'r dyfodol ym mhob cymuned.**

Er mwyn cynyddu'r gallu i adeiladu mwy o gartrefi, mae arnom angen i'r Llywodraeth Cymru nesaf weithredu ar:



*Bron Afon*

- **Warant cyllido tymor hir:** strategaeth fuddsoddi cyfalaf dymor hir gyda chyllid sy'n cynyddu o flwyddyn i flwyddyn yn unol â'r cynnydd mewn gallu i gyflawni mwy o gartrefi fforddiadwy. Dylai hyn fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion tai, a chynnwys ystod o gartrefi fforddiadwy sy'n cefnogi pobl wrth iddynt symud trwy eu bywydau, er enghraifft, cartrefi cymdeithasol, perchenogaeth cartref cost isel, tai â chymorth a thai gyda gofal. Dylai cyfanswm y cyllid cyfalaf yn 25/26 fod yn llawr ar gyfer buddsoddi, gan adeiladu ar y rhaglenni tai presennol, ochr yn ochr ag archwilio swyddogaeth benthyciadau llogau isel, dewisiadau cyllido blaengar a swyddogaeth Banc Datblygu Cymru.

- **Creu corfforaeth ddatblygu genedlaethol:** gyda grym i gynnull tir, arwain ar safleoedd strategol ar raddfa fawr, a chefnogi adfywio. Byddai gan yr endid rhannol-fasnachol hwn yr awdurdod i gyweirio safleoedd ar gyfer cartrefi a gorchmynion pryniant gorfodol, gan chwarae rhan wrth gyflawni a threfnu safleoedd adfywio mawr fel trefi newydd ac ymestyn trefol dros gyfnod hwy o amser. Gallai hefyd ymyrryd i gynyddu gwytnwch yn y gadwyn gyflenwi.

- **Cyflymu a symleiddio prosesau cynllunio a chymeradwyo:** gwneud penderfyniadau yn gyflymach a mwy effeithiol trwy roi blaenoriaeth i adolygu prosesau cymeradwyo a chryfhau'r system ar sail cynlluniau. Symleiddio gweithdrefnau ymgynghori statudol; buddsoddi yng ngallu ac arbenigedd awdurdodau lleol; a chyflymu'r broses o baratoi a mabwysiadu cynlluniau datblygu lleol.

- **Bod yn bragmataidd ar safonau:** cyflwyno safonau hyblyg, cymesur ar gyfer adfywio cartrefi gwag a throsi tai preifat sy'n bodoli, gan ddatgloi mwy o dai fforddiadwy a galluogi symud yn gyflymach allan o lety dros dro.

**... diolch i'r tîm am yr holl help a chefnogaeth. Fedrwn ni ddim aros dechrau ein teulu bach ein hunain yn y cartref gwerthfawr yma.**

*Tenantiaid Cymdeithas Tai Gogledd Cymru*



*Clwyd Alyn*

## Y gwahaniaeth y gallem ei wneud

Am bob 20,000 o gartrefi fforddiadwy a adeiladir gan gymdeithasau tai:[9]

**Arbedion i'r sector cyhoeddus:** hyd at £2.1 bn o arbedion i'r sector cyhoeddus ar draws Cymru a'r Deyrnas Unedig yn ehangach.

**Mwy o swyddi:** Gellid creu dros 14,200 o swyddi (yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol) bob flwyddyn yn ystod y cyfnod adeiladu, gyda dros 2,690 o swyddi (yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol) bob flwyddyn yn cael eu cefnogu yn barhaus.

**Mwy o gyfleoedd addysgol:** creu 2,065 o brentisiaethau a darparu 1,245 o leoliadau gwaith.

9 Savills ar gyfer Cartrefi Cymunedol Cymru, 2025

## Pam ei fod o bwys

Y cartref yw sylfaen ein hiechyd, hapusrwydd a’n llesiant. Dylai pob cartref, waeth pa ddaliadaeth, fod o safon dda. Ein huchelgais yw bod holl gartrefi cymdeithasol Cymru wedi eu hinswleiddio’n dda ac yn effeithlon o ran ynni, heb leithder a llwydni, a lle mae’r gwaith trwsio angenrheidiol yn cael ei wneud yn gyflym ac yn briodol. Mae tenantiad yn glir am beth sydd fwyaf pwysig: gallu cwrdd y costau byw yn dda yn eu cartrefi, cynhesrwydd, diogelwch, ac atgyweiriadau amserol. Mae’n bryd i flaenoriaethu’r pethau pwysig. [10]



*Pobl*

## Yr her

Mae Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC 2023) yn gosod disgwyliadau am safonau tai cymdeithasol yng Nghymru. Mae cymdeithasau tai yn cytuno gyda llawer o’r uchelgais yn y safonau, sy’n ceisio mynd i’r afael â dwy elfen bwysig o wella cartrefi i bobl a thaclo newid hinsawdd.

Rhaid i denantiaid fod a theimlo’n ddiogel yn eu cartrefi - nid yw hwn yn faes y gellir cyfaddawdu arno. Ond - o’i roi yn syml - mae costau llawn SATC 2023 yn afresymol o ddrud, nid oes gennym lwybr realistig tuag at eu cyflawni, ac nid yw popeth sy’n ofynnol dan y safonau yn bethau sydd o fwyaf o bwys i denantiaid.

10 TPAS, 2025

**Gwych. Mae fy nhŷ mor gynnes a chlyd, mae wedi gwneud cymaint o wahaniaeth mae'n rhyfeddol. Rydw i yn hapus iawn.**

*Tenant Grŵp Cynefin*

Er enghraifft nid yw'r targed "A" EPC (Tystysgrif Perfformiad Ynni) i bob cartref yn un y gellir ei gyflawni. Canfu gwaith ymchwil y byddai angen i gymdeithasau tai fuddsoddi £130,000 i bob eiddo hyd at 2050 i fodloni'r gofyn EPC 'A', ochr yn ochr â gofynion eraill SATC 2023. Ni ellir fforddio hyn, a dwy flynedd ymlaen ers cyflwyno'r polisi nid oes gennym lwybr at ei gyflawni eto. Mae diffyg sicrwydd o gyllid, bwlch sylweddol o ran sgiliau a chadwyn gyflenwi gyfyngedig yng Nghymru i gyd yn llesteirio'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn ymhellach. Rhaid i rywbeth newid.

Yng nghanol y targedau cyffredinol dryslyd, mae'r pethau sydd bwysicaf i tenantiaid yn mynd ar goll: diogelwch ac atgyweiriadau amserol.[11] Mae gallu landlordiaid cymdeithasol i ddefnyddio dull systematig o wneud gwelliannau i'w cartrefi, gan sicrhau bod buddsoddiadau yn rhoi gwerth am arian ac yn cael eu cefnogi gan y tenantiaid hefyd yn cael eu llesteirio. Mae hyn yn fater o degwch a chyfartaledd, o ystyried bod data o Loegr yn awgrymu bod nifer o grwpiau o leiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fyw mewn cartrefi o safon isel, yn arbennig y rhai sy'n dioddef o leither a llwydni.[12]



*Trivallis*

Mae angen i ni hefyd wneud mwy o gynnydd wrth daclo'r argyfwng costau byw a chynyddu tegwch mewn polisi rhent cymdeithasol ar sail asesiad o'r newydd o fforddiadwyedd a gwir gost byw'n dda yn y cartref. Mae'r sefyllfa bresennol yn creu annhegwch i denantiaid sy'n byw mewn cartrefi tebyg ac yn atal landlordiaid cymdeithasol rhag gallu buddsoddi mewn cartrefi ar y cyflymder gofynnol.

11 TPAS, 2025

12 Arolwg Tai Lloegr, Ebrill 2025

Mae'n bryd i ni flaenoriaethu: mae angen i ni ganolbwyntio ar yr hyn sydd fwyaf o bwys a bod yn onest am y cynnydd y gallwn ei wneud, tra byddwn yn gwneud cymaint ag y gallwn i wella a datgarboneiddio cartrefi.

## Y datrysiadau

**Dylai'r Llywodraeth Cymru nesaf adolygu'r safonau tai i dai sy'n bodoli, gan ganolbwyntio a rhoi blaenoriaeth i'r hyn y gellir ei gyflawni ac yn bwysicaf i denantiaid: cartrefi fforddiadwy, cynnes, diogel wedi eu cynnal a'u cadw'n dda.**



*Wales and West*

Er mwyn gwella'r cartrefi presennol i denantiaid, mae arnom angen i'r Llywodraeth Cymru nesaf weithredu ar:

- **Blaenoriaethu profiad tenantiaid o'u cartref:** adolygu ac ail-raglennu gofynion SATC 2023 ehangach i flaenoriaethu'r gweithgareddau hynny sy'n gostwng biliau i denantiaid ac yn gwella mwyaf ar eu profiad o gartref, heb amharu ar ddiogelwch.

- **Targedau datgarboneiddio cymesur, y gellir eu cyflawni:** Tu hwnt i gyrraedd EPC C / SAP 69 erbyn 2030, ni ddylai gwelliannau pellach ganolbwyntio ar dargedau cyffredinol ac yn hytrach ganolbwyntio ar sicrhau'r effeithlonrwydd ynni gorau ar gyfer pob cartref unigol, ar sail profiad pobl o fyw'n dda yno, arbedion ar filiau ynni a gwerth am arian. Rhaid i gyngor a chymorth i denantiaid ddefnyddio technolegau newydd yn effeithiol ac effeithlon fod yn rhan o unrhyw gynllun sydd â blaenoriaethau.

- **Lansio Rhaglen Sgiliau Ôl-osod Genedlaethol:** rhaid i hon gael ei seilio ar archwiliad llawn o'r sgiliau angenrheidiol, cyllid am sawl blwyddyn a phwyslais ar weithio gyda thenantiaid. Bydd hyn yn cynnig y sicrwydd a'r cyllid angenrheidiol i uwchsgilio ein gweithlu presennol, o beirianwyr gwres i blastrwyr, a gyrru ton newydd o brentisiaethau. Mae cymdeithasau tai yn y lle delfrydol i gyflawni hyn mewn cymunedau ar draws Cymru, gan gynnig gyrfaoedd tymor hir ac maent yn bartneriaid â cholegau lleol yn barod. Bydd y strategaeth hon yn rhoi hwb mawr ymlaen i'w gwaith, gan lunio cadwyn gyflenwi gadarn i bob daliadaeth i helpu pawb i drosglwyddo i wres glân.

- **Archwilio dewisiadau cyllido blaengar i ddatgarboneiddio ar gyflymder,** yn neilltuol dulliau oddi ar y fantolen. Mae gallu ariannol ychwanegol yn y sector yn trosi yn uniongyrchol yn fwy o gartrefi a chartrefi gwell i unigolion, a rhaid i'r llywodraeth fuddsoddi mewn archwilio'r rhain. Dylai hyn ystyried sut y gall buddsoddiad parhaus tymor hir mewn cynlluniau grant hanfodol, fel y Rhaglen Ôl-osod er Optimeiddio Chronfa Weithredu'r SATC, hybu mwy o fuddsoddiad i gyflawni ôl-osod.

- **Cyflymu'r gweithredu ar bwysau costau byw a gwneud rhent cymdeithasol yn decach:** yn y flwyddyn gyntaf o dymor y Llywodraeth Cymru nesaf, cyflwyno cydgyfeirio rhent yn ôl mesur fforddiadwyedd y cytunir arno i gyflawni tegwch i denantiaid a galluogi landlordiaid cymdeithasol i fuddsoddi mewn cartrefi.

> **Roedd y biliau mor uchel yn fy hen fflat. Roeddwn i'n rhoi arian yn y mesurydd trydan drwy'r amser. Ond mae'r lle yma mor rhad ei redeg. Mae'n wych. Fe wnaethon nhw ddweud am yr awyru a'r paneli solar sy'n twymo'r dŵr ac yn goleuo'r tŷ. Rydw i wedi cael dŵr twym a phŵer heb unrhyw broblem ers i mi symud i mewn.**

*Tenant Cartrefi Taf*

## Y gwahaniaeth y gallem ei wneud

**Gwneud gwresogi eich cartref yn fwy fforddiadwy ac arbed arian i denantiaid ar filiau ynni:** hyd at £770 y flwyddyn trwy wella cartrefi o EPC D i EPC C. Byddai arbedion pellach yn dod o fynd tu hwnt i EPC C pan fydd yn bosibl i gartrefi unigol.

**Arbed arian i'r GIG:** mae cartrefi cynhesach yn gartrefi iachach, yn llai tebygol o fod â lleithder, llwydni a chyddwysiad. Dengys gwaith ymchwil y byddai Band C EPC mewn tai cymdeithasol yn arbed dros £85 miliwn y flwyddyn i'r GIG o 2030.[13]

**Canolbwyntio ar bryderon allweddol tenantiaid:** bydd lleihau'r pwysau i gyflawni uchelgeisiau na ellir eu cyflawni yn rhyddhau adnoddau i gael y pethau sylfaenol yn iawn, gyda'r nod o drosi hynny yn gyfraddau bodlonrwydd uwch gan denantiaid.

**Gweithlu at y dyfodol:** mae cymdeithasau tai yn uniongyrchol ac anuniongyrchol yn cefnogi dros 37,000 o swyddi yn economi Cymru ar hyn o bryd, sy'n cynrychioli cyrraedd eang i gadwyni cyflenwi ar draws Cymru. Gyda'r datrysiadau a amlinellir uchod, mae potensial i hyn gael ei ehangu yn sylweddol gyda manteision mawr o bosibl i economi Cymru fyddai'n mynd ymhell tu hwnt i'r cyfraniad £1.4bn presennol. Er enghraifft, mae Corff Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu wedi amcangyfrif y bydd angen[15] i'r gweithlu dyfu o 13% i fodloni'r her ôl-osod yn unig.[14]

13 CIH, 2025

14 Corff Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) , Tachwedd 2024

## Pam ei fod o bwys

Pennir ein hiechyd a'n gobeithion mewn bywyd gan ble a sut yr ydym yn byw. Mae ansawdd ein cartrefi yn un o'r prif bethau sy'n pennu ein hiechyd a'n llesiant: mae cartrefi diogel, cynnes yn ein cadw'n iach ac annibynnol am cyn hired ag sy'n bosibl. Os nad oes gennym fynediad at le sefydlog i'w alw yn gartref, mae'r canlyniadau'n ysgytwol. Rydym am weld dyfodol lle mae gan bawb sydd ei angen y mynediad cywir at y cymorth a'r adnoddau i fyw'n dda gartref fel rhan o gymuned ehangach.

> **Dydw i ddim yn gorddweud wrth sôn na fyddwn i yma heddiw pe na byddwn i wedi cysylltu â nhw**

*Tenant Clwyd Alyn, cefnogaeth iechyd meddwl.*

## Yr her

Mae tlodi dwys yng Nghymru yn cynyddu. Mae mwy fwy o bobl yn cael trafferth gyda'r hanfodion sylfaenol: mae'r defnydd o fanciau bwyd yn cynyddu, mae mwy o bobl yn cael trafferth i fforddio gwresogi eu cartrefi, ac mae niferoedd cyson yn cyrraedd argyfwng tai ac yn byw mewn llety dros dro. Mae pobl ifanc yn treulio mwy o amser mewn llety dros dro ar gyfartaledd nag ar unrhyw amser yn y 7 mlynedd diwethaf. Mae'r gost ddynol yn ddwys, gan effeithio yn ddybryd ar iechyd, cyfoeth a chyfleoedd bywyd ar draws y genedl.

Mae gan Gymru cyfran uwch o bobl sy'n hŷn a gyda iechyd gwael. Mae pobl anabl, sy'n cynrychioli 21% o'r boblogaeth cyflawn, yn fwy tebygol o fyw mewn cartrefi cymdeithasol ac mewn cartrefi gorlawn. Roedd bron i 45% o'r cleifion a arhosodd yn yr ysbyty am fwy o amser nag y dylent o ganlyniad i oedi yn gysylltiedig â thai, cefnogaeth a chartrefi gofal.[15]

Mae gwasanaethau cyhoeddus wedi eu hymestyn tu hwnt i'w gallu. Dan bwysau eithafol, mae gwasanaethau yn gorfod canolbwyntio ar gyrraedd y gofynion sylfaenol statudol ac mae cydweithio yn teimlo fel moethusrwydd na ellir ei fforddio. Mae'r pwysau ar draws gwasanaethau cyhoeddus yn golygu bod staff tai rheng flaen yn cael trafferth i gael cefnogaeth gweithwyr proffesiynol eraill y mae ar eu tenantiaid eu hangen.

15 Stats Cymru, Awst 2025. Roedd gofal yn gysylltiedig â'r cartref, gofal camu i lawr, addasiadau i'r cartref, problemau yn gysylltiedig â thai, lleoliadau cartrefi yn cyfrif am bron i 45% o'r nifer gyffredinol o oediadau o ran rhyddhau o'r ysbyty

Er mwyn cael llwybr cynaliadwy allan o'r argyfwng tai, mae'n rhaid i ni, ochr yn ochr ag adeiladu mwy o gartrefi fforddiadwy, hygyrch, sicrhau bod pobl yn gallu cael gofal, cefnogaeth a'r cyfleoedd y mae arnynt eu hangen i fyw'n dda gartref. Mae hyn yn golygu canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar fel blaenoriaeth.

## Y datrysiadau

**Mae angen i'r Llywodraeth Cymru nesaf barhau i symud oddi wrth argyfwng a chyflymu atal trwy gyllid am nifer o flynyddoedd a dull llywodraeth gyfan i gadw pobl yn iach gartref**

Er mwyn gwneud Cymru yn iachach a thecach, mae arnom angen i'r Llywodraeth Cymru nesaf weithredu ar:



*Cynon Taf*

- **'Cynlluniau treialu 'Cymunedau yn Gyntaf':** yn gosod tai yn ganolog i wella iechyd a llesiant cymunedau mewn amrywiaeth o ardaloedd daearyddol dethol trwy ddefnyddio dull ar sail lle i gefnogi pobl a gwella cartrefi. Er enghraifft:
  - cydlynu gwasanaethau aml-asiantaeth, fel cymorth tai, iechyd meddwl ac addysg. Gallai hyn weld buddsoddiad yn ein gweithlu i gefnogi staff cymdeithasau tai i weithredu fel cyswllt allweddol i denantiaid i lapio gwasanaethau o'u cwmpas, gan adeiladu ar y dull Tîm o Gwmpas y Teulu.
  - cyflawni gwelliannau i gartrefi ar draws daliadaethau er enghraifft cyflawni gwelliannau effeithlonrwydd ynni ar hyd stryd gyfan i sicrhau'r fantais fwyaf i bawb.

- **Cenhadaeth O'r Ysbyty Gartref:** gyda chefnogaeth panel o arbenigwyr traws-sectoraidd, dylai'r genhadaeth hon trwy'r llywodraeth gyfan ddynodi ffyrdd y gall systemau tai, iechyd a gofal weithio'n well gyda'i gilydd yn gyflym i leihau oedi cyn trosglwyddo gofal a hyrwyddo dull 'Gartref Gyntaf' at adferiad cleifion.

> **Rydw i'n teimlo fod llety â chymorth wedi bod o help mawr i mi – roeddwn yn hoffi gwybod fod rhywun ar ben arall y ffôn**

*Tenant ifanc, Stori*

- **Deall yr angen am gymorth tai:** rhaid i'r Llywodraeth Cymru nesaf asesu ar frys lefel yr angen am wasanaethau cefnogi, yn amrywio o rai lefel isel i rai dwys, amlasiantaethol, ac adlewyrchu'r gofynion am gymorth yn deillio o ddeddfwriaeth digartrefedd.
- **Cyllid am sawl blwyddyn ar gyfer cefnogaeth sy'n bodloni anghenion yn gynnar ac yn atal argyfwng tai:** Rhaid i hyn gynnwys cyllid wedi ei ddiogelu ar gyfer y Grant Cymorth Tai sy'n adlewyrchu gwir gost darparu gwasanaethau o safon uchel; cyllid ychwanegol ar gyfer Cartrefi yn Gyntaf a dulliau eraill amlasiantaethol wedi eu targedu i'r rhai sydd ag anghenion cymhleth niferus; a sicrwydd ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol a gweithio i sicrhau'r budd mwyaf i unigolion nad ydynt yn hawlio yn llawn neu mewn trafferth.
- **Cyllido addasiadau hanfodol a chymhorthion sy'n cynyddu mynediad at dai i bawb:** rhaid i'r Grant Addasiadau Ffisegol gael ei adolygu a dylid darparu cyllid i gyd-fynd â'r galw, gan gynnwys gan y rhai ag anableddau cudd.




*Taff*

> **Fe wnaeth Daf arbed fy mywyd, hebddo ef (a Hedyn) fyddwn ni ddim wedi gallu fforddio'r cwrs**
>
> *Tenant Hedyn, cefnogaeth cyflogaeth*

## Y gwahaniaeth y gallem ei wneud:

**Arbedion i wasanaethau cyhoeddus ehangach o fuddsoddi mewn cymorth:** Dengys gwaith ymchwil, am bob £1 a fuddsoddir mewn grant cymorth tai, mae arbedion o £1.40 i'r pwrs cyhoeddus. Ar sail cyllideb y Grant Cymorth Tai 2024/25 o £182m, mae hyn yn trosi i arbediad gros o £442m, gyda £204m i'r gwasanaeth iechyd, £177m i wasanaethau gofal cymdeithasol a £70m i'r gwasanaethau cyfiawnder troseddol.

**Gwell canlyniadau i unigolion:** Dangoswyd bod Cartrefi yn Gyntaf, er enghraifft, wedi cyflawni cyfradd gynnal tenantiaeth o 91.5%.[16] Mae buddsoddi mewn cartrefi o safon uchel, fel yr amlygir uchod, yn cael effeithiau penodol ar blant a theuluoedd, gyda'r ymchwil yn dangos bod yr amodau tai y mae plant yn eu profi yn gallu dylanwadu ar eu hiechyd corfforol a meddyliol ar hyd eu hoes.[17]

**Manteisio ar y buddsoddiad mewn cartrefi:** Rydym yn gwybod, am bob cartref a adeiladir gan gymdeithas dai, mae'n creu £107,000 o arbedion i lywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig trwy arbedion i'r GIG, llety dros dro a digartrefedd yn ogystal â refeniw treth ychwanegol.[18] Trwy fuddsoddi'n fwy penodol yn y datrysiadau uchod, gallai hyn fod hyd yn oed yn uwch, gyda manteision holistaidd ar gyfer ystod o asiantaethau.

16 Cymorth, Ebril 2025
17 Sefydliad Iechyd y Byd, 2018
18 Savills, ar gyfer Cartrefi Cymunedol Cymru, 2025



# Cartrefi:
## ar gyfer pob dyfodol

Mae'n amser am gynllun **dewr** y gellir ei **gyflawni** i **ddod â'r argyfwng tai yng Nghymru i ben.**

Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru